Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 (Rhif 2)

Ionawr 2019

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y SICM) a osodwyd mewn perthynas â Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau 2018 arfaethedig"). Dyma'r tro cyntaf i Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac yna cyflwyno'r cynnig cydsyniad offeryn statudol perthnasol.

## 01. Y cefndir

**2.** Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw Offeryn Statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**3.** Gosodwyd Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 gerbron y pwyllgorau sifftio yn nau Dŷ Senedd y DU ar 20 Tachwedd 2018. Gosododd Llywodraeth Cymru SICM mewn perthynas â Rheoliadau 2018 arfaethedig ar 26 Tachwedd 2018.

**4.** Yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2018, ystyriodd Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin y rheoliadau ac argymhellodd y dylai'r weithdrefn negyddol

Draft

fod yn berthnasol. Hefyd, adroddodd Pwyllgor Craffu Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi (Is-bwyllgor B) y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn berthnasol.

**5.** Ar ôl hynny, ar 18 Rhagfyr 2018, gwnaed Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 (Rheoliadau 2018). Gellir dod o hyd i'r Rheoliadau yn:

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/1399/contents/made

**6.** Trafododd y Pwyllgor SICM y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfr 2018. Hefyd, nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar pryd i gyf-fynd â'r Memorandwm Cydsyniad, a nododd:

> "O ystyried swm mawr y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl ar yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser pwysig y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 30A yn datgan bod unrhyw aelod yn gallu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr OS hwn, a byddwn yn hapus i gymryd rhan mewn dadl o'r fath."

**7.** Yn unol â Rheol Sefydlog 30A.3, 'rhaid i unrhyw aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, sy'n bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol mewn perthynas ag offeryn statudol perthnasol osod memorandwm cydsyniad offeryn statudol yn gyntaf, ond rhaid iddo beidio â gwneud hynny fel rheol nes bod aelod o'r llywodraeth wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol mewn perthynas â'r offeryn statudol hwnnw'.

**8.** Ar 31 Rhagfyr 2018, gosododd Suzy Davies AC, Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018. Ar ôl hynny, ar 07 Ionawr 2019, cyflwynodd Suzy Davies AC Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, sydd i'w drafod ar 16 Ionawr 2019.

## Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**9.** Er i ddau SICM gael eu gosod mewn perthynas â rheoliadau arfaethedig 2018, mae cynnig Suzy Davies yn cyfeirio'n benodol at y SICM a osodwyd ganddi ar 31 Rhagfyr 2018, ac ar y sail honno y gofynnir i'r Cynulliad wneud ei benderfyniad. Felly, nid yw'r adroddiad hwn ond yn cynnwys manylion y SICM a gyflwynwyd gan Suzy Davies, gan mai dyna'r SICM perthnasol y bydd y Cynulliad yn ei drafod.

**10.** Mae'r Memorandwm yn nodi mai amcan yr OS yw mynd i'r afael â:

> "(a) methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol; a
>
> (b) diffygion eraill;

sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel y darperir yn unol â Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018".

**11.** Mae'n esbonio bod y Rheoliadau (OS) yn diwygio, yn benodol:

(a) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") (Rhan 2 o'r OS);

(b) Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 (Rhan 3 o'r OS); ac

(c) Penderfyniad Cyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2017/48 (Rhan 4 o'r OS).

**12.** Mae'r SICM yn nodi sut mae Rheoliadau 2018 yn diwygio Deddf 2009:

(a) adran 60(8) – i adlewyrchu gwelliannau i ddeddfwriaeth datganoli'r Alban o dan Ran 3 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;

(b) adran 76(2) – i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;

(c) adran 123(5) – i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;

(d) adran 141 – i ddileu'r diffiniad o 'third country vessel';

(e) adran 244(1) – i ddarparu y bydd llongau Aelod-wladwriaethau'r UE a llongau o Gibraltar yn cael eu trin fel llongau o drydedd wlad.

**13.** Ac mae'n nodi:

"Mae'r newidiadau a nodir ym mharagraffau 8(c) i (e) yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, a allai fod yn destun Bil y Cynulliad Cenedlaethol. Y darpariaethau hyn yn Rheoliadau 2018 sy'n destun y SICM hwn".

**14.** Mae paragraff 10 o'r SICM yn nodi pam mae'r Aelod (Suzy Davies) o'r farn ei bod yn briodol i'r OS wneud y darpariaethau perthnasol. Yn ei SICM ei hun, mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu yn yr achos hwn.

**15.** Mae paragraff 12 o'r SICM yn egluro'r gwahaniaeth rhwng y SICM hwn a SICM Llywodraeth Cymru gan ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar Ran 2 o Reoliadau 2018 fel testun y cynnig cydsyniad.

**16.** Wrth esbonio pam mae angen y SICM ychwanegol, mae'r SICM yn nodi'r llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2018 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a

Materion Gwledig, lle yr eglurir nad oedd Ysgrifennydd y Cabinet o blaid cyflwyno cynnig ar gyfer ei drafod oherwydd swm mawr y ddeddfwriaeth sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, â'r SICM ragddo i ddweud bod y SICM ychwanegol yn galluogi i gynnig gael ei gyflwyno:

> "fel bod modd ceisio cytundeb y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch a ddylid cynnwys darpariaeth berthnasol yn yr offeryn statudol hwn ".

## 02. Ystyriaeth

**17.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a osodwyd gan Suzy Davies AC yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2019, gan nodi'r rheswm y bu'r Aelod o'r farn ei bod yn angenrheidiol cyflwyno SICM.

## 03. Casgliad

**18.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r Memorandwm a osodwyd gan Suzy Davies AC, ac i'r Cynulliad hwn ystyried y SICM hwn yn unol â Rheol Sefydlog 30A.3, a'r cynnig a gyflwynwyd gan yr Aelod ar 7 Ionawr 2019.